
#21

Ymgysylltu â Chwsmeriaid 2021:

● **A yw'n gweithio i chi?**

*Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n
bwysigi ni....*

Pam cynnal yr adolygiad hwn?

Pwrpas y thema:

Ystyried sut y gallwn barhau i ehangu a gwella ein darpariaeth Ymgysylltu; gwirio pa mor dda y mae Ymgysylltu i Wella yn gweithio; darganfod beth yr ydych chi, ein cwsmeriaid, am ein gweld yn ei wella yn 2022.

Pryd y gwnaethom gynnal yr arolwg hwn?

Drwy gydol mis Awst a mis Medi 2021

Diolch am eich cefnogaeth!


Cawsom wybodaeth gan 227 o'n cwsmeriaid

Dyma ddywedoch chi. . .

Dyma'r ymatebion a gafodd ein Tîm Cydlynu e2i:


1/ Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi cymryd rhan yn y canlynol?

Atebwyd gan: 225 Nid atebwyd gan: 12




2/ Os nad ydych wedi cymryd rhan ynddynt, beth oedd yn gyfrifol am hynny?

Atebwyd gan: 175 Nid atebwyd gan: 52



3/ Nodwch pa fathau o ddigwyddiadau y byddech yn eu hoffi fwyaf


Atebwyd gan: 208 Nid atebwyd gan: 19



4/ Mae ateb yn ceisio gwneud ei orau drosoch, ond a oes unrhyw beth yr hoffech i ni weithio arno er mwyn i ni fod yn well fyth?

Atebwyd gan: 111

Nid atebwyd gan: 116



Roedd yn amhosibl categoreiddio'r sylwadau amrywiol ac roeddent yn cynnwys sylwadau megis y canlynol:

"Mae pawb wedi anghofio am Williams Court; mae'r lolfa yn lle diflas."

"Byddai'n well gen i gael llythyr newyddion gan ateb sy'n cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau/lluniau o'r staff/cystadlaethau/rhifau ffôn."

"Roedd y ffenestri solar yn grêt ond mae'r holl gontractwyr eraill yn annibynadwy oherwydd nid ydym yn gwybod eu bod yn dod."

"Mae llawr ein hystafell ymolchi wedi cael ei atgyweirio ond mae'n dechrau codi unwaith eto."

"Rwy'n ceisio symud i Hawkstone Road, Doc Penfro."

"Y wi-fi yn Acorn Heights – mae'r ..."

"...cyfleuster yn wastraff arian."

"Datrys y problemau sy'n gysylltiedig â'r lifft."

"Byddai cael warden ar y safle'n ddelfrydol"

"Ystafell ymolchi newydd"

"Cyfathrebu ynglŷn â gwaith cynnal a chadw arfaethedig"

"Tŷ haf; bore coffi."

"Ddim wir – rwy'n eithaf bodlon; mae'r bois cynnal a chadw yn dda iawn – yn lân ac yn daclus iawn – does gen i fawr o feddwl o'r contractwyr."


"Llai o arolygon."

"Stopio newid rheolwyr drwy'r amser. Mae pethau'n mynd ar goll wrth gyfathrebu, a d'ych chi ddim yn gwybod mwyach beth yw gwaith eich gilydd. Mae tâl ychwanegol yn cael ei godi arnom bob mis am bethau y mae angen eu gwneud; byddwn yn hoffi trafod hynny."

5/ Pa mor fodlon neu anfodlon yr ydych bod ateb yn gwrando ar eich barn ac yn gweithredu ar ei sail?

Atebwyd gan: 222


Nid atebwyd gan: 5



6/ Pa mor fodlon neu anfodlon yr ydych â'r cyfleoedd a gewch i gymryd rhan yn mhrosesau ateb ar gyfer gwneud penderfyniadau?


Atebwyd gan: 221

Nid atebwyd gan: 6



7/ Hoffech chi helpu i lunio gwasanaethau ateb ar eich cyfer? Os felly, nodwch eich enw a'ch manylion cyswllt yma:

Atebwyd gan: 71 Nid atebwyd gan: 156



Dyma rai o'r sylwadau a gofnodwyd gennym:

"Nac oes, maent yn dda iawn, a dweud y gwir – os ydych yn ffonio am rywbeth – mae'r mater yn cael sylw ac maent yn rhoi gwybod i fi pryd y bydd y gwaith yn cael ei wneud os nad oes modd ei wneud yn syth."

"Nac oes, rwy'n fodlon â phopeth."

"Cyfathrebu. Os ydych am gysylltu â rhywun penodol yn ateb, gall fod yn anodd."

"Byddai mwy o dripiâu cymunedol yn braf..."

"Mae ateb i fod i ofalu am erddi ffrynt Parc Derwen, ond nid oes neb wedi gwneud hynny ac mae'r tenantiaid yn gwneud y gwaith eu hunain erbyn hyn."

"Byddai gen i ddiddordeb yn y fan cymorth digidol."

"Cyswllt ardderchog gan rai aelodau o staff."

"Byddem yn hoffi ardal lle gallwn gymdeithasu fel cymuned – dim ond rhai cadeiriau a byrddau; rhywle lle gallem gael barbeciw."

"Does dim seddi yn y cefn."


"Mwy o seddi."

"Mwy o gymorth gydag anableddau, nid yw ardaloedd yn y gymuned bob amser yn addas i gadeiriau olwyn, a mwy o gymorth gyda diogelwch yn y cartref, mwy o opsiynau, h.y. systemau cloi newydd a goleuadau ychwanegol o amgylch yr eiddo"

"Dwi'n methu â gweld sut y gellir ei wella."

6/ I wneud yn siŵr ein bod yn clywed gan ystod eang o'n cwsmeriaid, nodwch i ba categori oedran yr ydych yn perthyn

Atebwyd gan: 184 Nid atebwyd gan: 43



Dyma wnaethom ni...

Ar sail canfyddiadau thema e2i, rydym yn bwriadu cymryd y Camau Gwella canlynol:

1. Cymryd camau i gysylltu â chwsmeriaid sy'n dangos diddordeb mewn ymgysylltu, er mwyn cynyddu nifer y bobl yr ymgysylltir â nhw
2. Parhau i gydnabod bod grwpiau gwahanol o bobl yn defnyddio dulliau gwahanol o ymgysylltu a bod yn rhaid cadw'r amrywiaeth hwnnw o ddulliau, ei feithrin ac adeiladu arno
3. Sicrhau bod amrywiaeth o ddulliau hysbysebu'n cael eu defnyddio, a fydd yn sicrhau cynhwysiant

Os hoffech drafod â'r staff, a chwsmeriaid eraill ateb, y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt cyflawni'r camau gwella hyn, mae croeso i chi ddod i'n Grŵp Cynllunio Arolygon sydd i fod i gwrdd ar 08/03/22 10:00yb. Cofiwch gadw llygad ar ein gwefan am ddiweddariadau.

Rydym yn ddiolchgar dros ben i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r adolygiad thematig hwn

Angen gwybod mwy neu godi mater?

Anfonwch neges ebost atom:

engage@atebgroup.co.uk

Ewch i'n gwefan: www.atebgroup.co.uk

Anfonwch air atom: Tŷ Meyler, St Thomas Green, Hwlfordd, Sir Benfro SA61 1QP

Ffoniwch ni neu anfonwch neges destun atom: 07500 446611